

Kirsty Williams, AC  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg  
Llywodraeth Cymru

24 Hydref 2018

Annwyl Kirsty

### Ymchwiliad i effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Hydref mewn ymateb i'r ddau gam gweithredu o gyfarfod y Pwyllgor ar 20 Medi ar ymchwiliad y Pwyllgor i effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach.

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am eich ymateb, ond byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech ymhelaethu ar eich ymateb i'r ail o'r camau gweithredu hyn.

Nododd eich papur i'r Pwyllgor cyn y cyfarfod eich bod wedi darparu '£6.241 miliwn o gyllid ychwanegol i CCAUC i alluogi'r Cyngor i ymdrin ag unrhyw oblygiadau byrdymor sy'n deillio o newidiadau demograffig a goblygiadau cychwynnol trefniadau pontio'r UE'. Pan drafodwyd hyn yn ystod cyfarfod y Pwyllgor, gwnaethoch gytuno i ddarparu dadansoddiad o sut y cafodd y £6.2 miliwn ychwanegol i CCAUC ei ddyrannu neu ei wario'n ymarferol – gan nad oedd hyn yn glir.

Mae eich llythyr dyddiedig 23 Hydref yn cadarnhau y penderfynodd CCAUC 'ddefnyddio'r cyllid i leihau lefel addasiad y cyllid a oedd yn berthnasol i ddyraniadau CCAUC i sefydliadau ym mlwyddyn academaidd 2017–18, gan sicrhau eu bod yn gallu elwa o'r cyllid ychwanegol yn syth'. Fodd bynnag, o'r ymateb hwn, mae'n aneglur o hyd pa oblygiadau cychwynnol Brexit y nodwyd bod angen eu lliniaru drwy gyllid o'r fath a sut y defnyddiwyd y cyllid hwnnw'n




ymarferol er mwyn mynd i'r afael â'r un goblygiadau cychwynnol hynny o drefniadau pontio'r UE – rhan o fwriad y cyllid a nodwyd.

Trafododd y Pwyllgor bapur materion allweddol ar gyfer yr ymchwiliad hwn heddiw, ac roedd ganddo bryder o hyd nad oedd yn eglur sut roedd yr arian hwn wedi'i ddefnyddio mewn perthynas â threfniadau pontio Brexit. Felly, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu dadansoddiad o ba oblygiadau cychwynnol y nodwyd bod angen eu lliniaru oherwydd trefniadau pontio'r UE a sut y cyfrannodd y £6.2 miliwn at eu rheoli'n ymarferol.

Byddem yn ddiolchgar pe gellid darparu'r wybodaeth hon erbyn 8 Tachwedd, fel y gall helpu wrth ddrafftio adroddiad y Pwyllgor.

Yn gywir



**Lynne Neagle AC**  
**Cadeirydd**

